**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**
**GORCHYMYN (MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD - BWCLE) (GORFODAETH SIFIL) (DIWYGIAD 2020)**

Rhoddir rhybudd trwy hyn bod ar 7 Ionawr 2020 Cyngor Sir y Fflint ("y Cyngor") wedi gwneud Gorchymyn yn arfer ei bwerau o dan Adrannau 32, 33, 34, 35 a 35C a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig y Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ('Deddf 1984') a Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 Deddf 1984, effaith hyn fydd diwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Mannau Parcio Oddi Ar y Stryd – Bwcle) (Dirymu) 2018 fel ei fod yn rheoleiddio’r defnydd o Faes Parcio Brunswick Road ym Mwcle a darparu ardal â darpariaeth parcio am ddim:

(a) Bydd Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd – Bwcle) (Dirymu) 2018 yn cael ei ddiwygio i'r graddau bod yr isod wedi'i ddileu o Atodlen 2

| **Colofn 1** | **Colofn 2** | **Colofn 3** | **Colofn 4** | **Colofn 5** | **Colofn 6** | **Colofn 7** | **Colofn 8** | **Colofn 9** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Lle Parcio** | **Dosbarthiad y Lle Parcio** | **Dosbarth y Cerbyd** | **Safle lle y gall Cerbyd Aros** | **Diwrnodau ac oriau lle gellir codi tâl am fannau parcio** | **Diwrnodau ac oriau gweithredol** | **Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros** | **Graddfa Ffioedd** | **Math o Drwydded** |
| Brunswick Road, Bwcle, fel y dangosir ag ymyl coch ar Gynllun 2 ynghlwm i’r Gorchymyn hwn. | Talu ac Arddangos | Pob Cerbyd (heb drelar wedi’i gysylltu) heb fod yn drymach na 3.5 tunnell. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>09:00 tan 17:00 | Bob dydd<br>Bob awr | 2 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr. | 30c am hyd at 1 awr<br>50c am hyd at 2 awr | Dim |

b) ac yn ei le bydd:

| Colofn 1 | Colofn 2 | Colofn 3 | Colofn 4 | Colofn 5 | Colofn 6 | Colofn 7 | Colofn 8 | Colofn 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Lle Parcio** | **Dosbarthiad y Lle Parcio** | **Dosbarth y Cerbyd** | **Safle lle y gall Cerbyd Aros** | **Diwrnodau ac oriau lle gellir codi tâl am fannau parcio** | **Diwrnodau ac oriau gweithredol** | **Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros** | **Graddfa Ffioedd** | **Math o Drwydded** |
| Brunswick Road, Bwcle, Maes Parcio A, fel y dangosir ag ymyl las ar Gynllun 2 ynghlwm i'r Gorchymyn hwn. | Am ddim ac Arddangos | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn drymach na 3.5 tunnell. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | Amherthnasol. | Bob dydd<br>Bob awr | 1 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr. | Am ddim | Dim |
| Brunswick Road, Bwcle, Maes Parcio B, fel y dangosir ag ymyl goch ar Gynllun 2 ynghlwm i'r Gorchymyn hwn. | Talu ac Arddangos | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn drymach na 3.5 tunnell. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>09:00 tan 17:00 | Bob dydd<br>Bob awr | 2 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr. | 30c am hyd at 1 awr<br>50c am hyd at 2 awr | Dim |

Ym mhob synnwyr arall bydd darpariaethau presennol Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Mannau Marcio Oddi ar y Stryd – Bwcle) (Dirymu) 2018 yn parhau mewn grym.

Mae copi o'r Gorchymyn, a fydd yn weithredol o 10 Ionawr 2020, ynghyd â chynlluniau'n dangos lleoliadau'r mannau parcio a Datganiad o Resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn, y gellir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yng Nghyngor Sir y Fflint, Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, Sir y Fflint CH7 6LG a Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell Bwcle, Y Ganolfan Siopa Bwcle CH7 2EF.

Os ydych chi'n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad y Ddeddf neu unrhyw offeryn a wnaethpwyd dani o ran y Gorchymyn, fe allwch, o fewn chwe wythnos o ddyddiad y Gorchymyn, wneud cais i'r uchel Lys, i'r pwrpas hwn.

Dyddiad: Dydd Gwener 7 Ionawr 2020



Stephen Jones, Prif Swyddog (Gwasanaethau Strydwedd a Chludiant), Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NR.

DYDDIEDIG 7 LONAWR 2020

---

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT

# (LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD – BWCLE) (GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) 2020

---

Stephen O Jones,
Prif Swyddog
(Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint,
CH7 6NF.

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**
**(LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD – BWCLE)**
**(DIWYGIAD) 2020**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 32, 33, 34, 35 a 35C a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984"), Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn bwriadu gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn

2. Bydd Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio oddi ar y Stryd – Bwcle) (Dirymiad) 2018 yn cael ei ddiwygio a bydd yr isod yn cael ei ddileu o Atodlen 2

<u>**Atodlen 2**</u>

| Colofn 1 | Colofn 2 | Colofn 3 | Colofn 4 | Colofn 5 | Colofn 6 | Colofn 7 | Colofn 8 | Colofn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Lle Parcio** | **Dosbarthiad y Lle Parcio** | **Dosbarth y Cerbyd** | **Safle lle y gall Cerbyd Aros** | **Diwrnodau ac oriau lle gellir codi tâl am fannau parcio** | **Diwrnodau ac oriau gweithredol** | **Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros** | **Graddfa Ffioedd** | **Math o Drwydded** |
| Brunswick Road, Bwcle, fel y dangosir mewn coch ar Gynllun 2 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | Talu ac Arddangos | Pob cerbyd (heb drelar yn sownd iddo), nad ydyw'n fwy na 3.5 tunnell | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br><br>09:00 tan 17:00 | Bob dydd<br><br>Bob awr | 2 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr | 30c am hyd at 1 awr<br><br>50c am hyd at 2 awr | Dim |

(b) A bydd y canlynol yn ei ddisodli:

**Atodlen 2**

| Colofn 1 | Colofn 2 | Colofn 3 | Colofn 4 | Colofn 5 | Colofn 6 | Colofn 7 | Colofn 8 | Colofn 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Lle Parcio** | **Dosbarthiad y Lle Parcio** | **Dosbarth y Cerbyd** | **Safle lle y gall Cerbyd Aros** | **Diwrnodau ac oriau lle gellir codi tâl am fannau parcio** | **Diwrnodau ac oriau gweithredol** | **Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros** | **Graddfa Ffioedd** | **Math o Drwydded** |
| Brunswick Road, Maes Parcio A Bwcle, fel y dangosir mewn glas ar Gynllun 2 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | Am ddim ac Arddangos | Pob cerbyd (heb drelar yn sownd iddo), nad ydyw'n fwy na 3.5 tunnell | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | Amh. | Bob dydd<br>Bob awr | 1 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr | Am ddim | Dim |
| Brunswick Road, Maes Parcio B Bwcle, fel y dangosir mewn coch ar Gynllun 2 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | Talu ac Arddangos | Pob cerbyd (heb drelar yn sownd iddo), nad ydyw'n fwy na 3.5 tunnell | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>09:00 tan 17:00 | Bob dydd<br>Bob awr | 2 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr | 30c am hyd at 1 awr<br>50c am hyd at 2 awr | Dim |

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

4. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Lonawr 2020 a gellir ei ddyfynnu fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio oddi ar y Stryd – Bwcle) (Diwygiad) 2020.

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN SIR Y FFLINT** )
**at hyn** )
ar y 7 diwrnod Lonawr 2020 ym mhresenoldeb :- )

**Y CADEIRYDD** Marion Bateman

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**




| | | | |
|---|---|---|---|
| DRAWN BY: JB | PRELIMINARY / APPROVAL / CONSTRUCTION | | Brunswick Road, Buckley<br>Car Park - Plan 2<br>Brunswick Road, Bwcle<br>Maes Parcio - Gynllum 2 |
| CHECKED BY: NW | AMENDMENTS: | DATE | |
| SCALE: 1: 500 @ A4 | | | DRAWING NUMBER ST/PS/1000 200 P1 |
| NAT. GRID REF: SJ2763 | | | |

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386 Flintshire County Council 2018

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

Steve Jones

Chief Officer (Streetscene and Transportation), County Hall, Mold, CH7 6NF
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth), Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NF

STREETSCENE

MB 65

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**
**GORCHYMYN (MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD - BWCLE) (GORFODAETH SIFIL) (DIWYGIAD) 201-**

**DATGANIAD O RESYMAU DROS ARGYMELL GWNEUD Y GORCHYMYN**

Effaith y Gorchymyn arfaethedig yw rheoleiddio’r defnydd o Faes Parcio Brunswick Road ym Mwcle drwy gyflwyno man parcio am ddim; gwella egni a bywiogrwydd canol y dref drwy ddarparu man parcio arhosiad byr am ddim.

Darperir lleoedd parcio oddi ar y stryd (meysydd parcio) gan y Cyngor i helpu a lleddfu tagfeydd traffig ac i gynorthwyo rheoli traffig trwy leihau'r galw am leoedd parcio ar y stryd.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi eu cynnwys yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.

Dyddiedig 6 Rhagfyr 2019



Stephen O Jones,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Strydwedd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF